# WALTERS




## CYCHWYN GWAITH PARATOI

RHONDDA CYNON TAF

Hen siopau Marks and Spencer/Dorothy Perkins

**Stryd y Taf, Pontypridd**

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penodi Walters i ddymchwel hen siopau Marks and Spencer a Dorothy Perkins ar Stryd y Taf yng nghanol tref Pontypridd. Bydd Walters yn cychwyn ar y gwaith ar y safle ddydd Llun 27 Mawrth 2023, er mwyn paratoi ar gyfer dymchwel yr adeiladau yn y dyfodol.




## BETH I'W DDISGWYL

Bydd palis yn cael ei godi ar y llwybr troed o flaen yr adeiladau ar hyd Stryd y Taf. Bydd mynediad ar gael i Barc Ynysangharad dros y bont troed tra bo'r gwaith paratoi yn cael ei gyflawni.

Mae'r gwaith dymchwel wedi'i drefnu i ddechrau ym mis Mehefin ac i'w gwblhau ym misoedd yr hydref. Bydd y gwaith yn golygu bod modd ailddatblygu'r safle.

Dyma'ch sicrhau y bydd Walters yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n tarfu arnoch chi yn y gymuned leol cyn lleied â phosibl.

## CYFNOD GWAITH PARATOI

Yn ystod y cyfnod gwaith paratoi bydd Walters yn gweithio y tu mewn i'r adeilad yn cyflawni'r gwaith canlynol:

- Datgysylltu cysylltiadau domestig (gwasanaethau)
- Tynnu'r gosodiadau mewnol;
- Arwahanu'r ffrydiau gwastraff;
- Gwared â'r gwastraff i ganolfannau ailgylchu oddi ar y safle

Yn dilyn cwblhau'r cyfnod gwaith paratoi, bydd y gwaith dymchwel yn dechrau ym mis Mehefin **2023.**



## DIOGELWCH

Gall unrhyw fynediad heb awdurdod i'r safle arwain at anaf difrifol. Bydd y safle yn cael ei ddiogelu gan Walters er mwyn atal y fath fynediad. Bydd gwasanaeth diogelwch yn bresennol ar y safle y tu allan i oriau gwaith arferol. Serch hynny, dyma ofyn i chi barhau i fod yn wyliadwrus a rhoi gwybod am unrhyw ddifrod neu amheuaeth o fynediad heb ganiatâd ar unwaith i garfan y safle drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod.

## MANYLION CYSWLLT WALTERS AR Y SAFLE

**Goruchwyliwr y Safle**
07977 197121

**Pencadlys Walters**
01685 815100






